CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES

2024–25

# Adroddiad Blynyddol

## Cyngor Llyfrau Cymru

## Cysylltu gyda ni

Cyngor Llyfrau Cymru
Castell Brychan
Aberystwyth
SY23 2JB

01970 624 151
post@llyfrau.cymru
llyfrau.cymru

## Ein gwasanaethau

**ffolio**

Eich hoff lyfrau o Gymru ar gael i'w prynu mewn fformatau digidol – gyda'ch pryniant yn cefnogi siopau llyfrau lleol.

› **ffolio.cymru**

**Y Ganolfan Ddosbarthu**

Cartref i dua miliwn o lyfrau – yn dosbarthu llyfrau gorau Cymru i siopau ledled Cymru a thu hwnt.

› **llyfrau.cymru**

**Golygu a Dylunio**

Gwasanaethau dylunio a golygu i gyhoeddwyr ledled Cymru yn cynnig cyngor ac arbenigedd.

› **llyfrau.cymru**

**gwales.com**

Archebu llyfrau ar-lein i'w cludo i'ch cartref, a dewis siop lyfrau i'w chefnogi.

› **gwales.com**

*Rhif Elusen Gofrestredig 1192269*

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES

2024–25

EIN GWELEDIGAETH

Ry'n ni eisiau Cymru lle mae pob un ohonom wedi dod o hyd i'r union lyfr; y geiriau'r ydyn ni'n gwirioni arnyn nhw, sy'n ein hysbrydoli, ein haddysgu, a gwneud i ni deimlo'n well.

*Cymru: Cenedl o Ddarllenwyr*
*Cynllun Strategol 2022–27*

Cymru Greadigol
Creative Wales

Adroddiad Blynyddol

# Mynegi gwerthfawrogiad dros flwyddyn anodd



## *Gair gan y Cadeirydd*
## Linda Tomos, Cadeirydd y Bwrdd

Mae hon wedi bod yn flwyddyn arbennig o heriol i Gyngor Llyfrau Cymru a'n partneriaid.

TROSOLWG

Roedd y gostyngiad o 10.5% yn ein cyllideb flynyddol yn anodd iawn i'w reoli a hoffwn fynegi ein gwerthfawrogiad fel Bwrdd Ymddiriedolwyr am y gwaith caled a'r sgìl a ddangoswyd gan ein staff dan arweiniad Helgard i fynd i'r afael â'r materion a godai. Er gwaethaf y cyd-destun anodd hwn, rydym wedi parhau i roi cymorth i'r diwydiant cyhoeddi sydd unwaith eto wedi cynhyrchu llyfrau o ansawdd uchel iawn yn y Gymraeg a'r Saesneg ar gyfer pobl Cymru. Mae'r Gronfa Cynulleidfaoedd Newydd wedi parhau i ddarparu cyfleoedd i awduron a chyhoeddwyr newydd a phresennol i archwilio cyfeiriadau arloesol ar gyfer eu gwaith. Roedd



yn arbennig o galonogol i ddysgu mwy am lwyddiant y Gronfa Cynulleidfaoedd Newydd mewn digwyddiad a gynhaliwyd yn Wrecsam lle cafodd Rebecca Evans AS, yr Ysgrifennydd Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio y cyfle i gwrdd â chyfranogwyr a thrafod eu prosiectau.

Ni fyddai'r cyflawniadau hyn wedi bod yn bosibl heb gefnogaeth weithredol Jack Sargeant AS, Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol, a'r berthynas gadarnhaol sydd wedi parhau gyda gweision sifil Cymru Greadigol ac Is-adran Diwylliant Llywodraeth Cymru. Gwn fy mod yn siarad ar ran fy nghyd-Ymddiriedolwyr wrth ddiolch yn ddiffuant iddynt am eu cyfraniad i lwyddiant gwaith y Cyngor. Mae cyfraniad a diddordeb Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Lynne Neagle AS, hefyd wedi bod yn amhrisiadwy wrth gefnogi perthynas y Cyngor Llyfrau ag ysgolion Cymru i annog pob plentyn i fwynhau darllen, gan gynnwys Rhyngom – ein prosiect arbennig i gyhoeddi mwy o lyfrau i ddarllenwyr ifanc sy'n cynrychioli diwylliant, pobl a hanes Cymru gyfan, ac sy'n dathlu a hyrwyddo amrywiaeth.

Yn ystod y flwyddyn, roedd y Bwrdd yn falch iawn o groesawu'r Athro Angharad Price atom ni. Mae Angharad yn Athro Cymraeg ac Ysgrifennu Creadigol ym Mhrifysgol Bangor ac yn awdur nifer o nofelau, ysgrifau a gweithiau nodedig ar lenyddiaeth Cymru. Fel Cadeirydd, hoffwn hefyd ddiolch yn ddiffuant i aelod hirhoedlog o'r Bwrdd, yr Athro Jane Aaron, sydd wedi cyfrannu'n aruthrol at waith y Cyngor Llyfrau dros y blynyddoedd a dymuno'n dda iddi yn y dyfodol. Mae Jane yn ysgolhaig o fri sydd wedi darparu cyngor doeth i mi ac eraill sydd wedi elwa o'i chyfeillgarwch.

Unwaith eto, mae'r uchafbwyntiau'n niferus ac fe'ch anogaf i ddarllen yr Adroddiad Blynyddol hwn. Rwy'n siŵr y bydd ehangder y gwaith sydd wedi'i gyflawni er gwaethaf y cyfyngiadau ariannol heriol wedi gwneud cymaint o argraff arnoch ag a wnaeth arna i. Mae'r Cyngor Llyfrau yn parhau i chwarae rhan hollbwysig o ran darparu cyngor arbenigol, cynnal ansawdd y llyfrau a gefnogir a chysylltu llyfrau â darllenwyr. Fodd bynnag, mae angen cydnabod mai dim ond trwy gynnal cyllideb graidd sy'n gymesur â disgwyliadau'r diwydiant a'r cyhoedd y gellir cynnal ac ehangu'r arbenigedd unigryw hwn y bydd cyhoeddiadau a gwasanaethau o ansawdd uchel yn parhau i gael eu cefnogi a'u cynhyrchu.

Yn olaf, fel Cadeirydd, rwyf wedi elwa'n fawr o fewnbwn llawer o gydweithwyr. Hoffwn ddiolch yn ddiffuant i'n holl gefnogwyr, aelodau gwirfoddol y paneli, Cyfeillion y Cyngor Llyfrau, a'm cyd-Ymddiriedolwyr sydd wedi rhoi o'u hamser a'u harbenigedd i'n galluogi i gyflawni cymaint. Heb ymroddiad y staff sy'n sicrhau bod ein gwaith yn ffynnu o dan arweiniad Helgard a'n partneriaid niferus yn y Llywodraeth, awdurdodau lleol a'r diwydiant cyhoeddi, ni fyddem wedi llwyddo i gyflawni'r allbynnau a'r canlyniadau a amlinellir yn yr adroddiad hwn. Edrychaf ymlaen yn fawr at weithio gyda chi i gyd yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

Gyda fy nymuniadau gorau.

*Linda*

# Blwyddyn o flaenoriaethu a gwneud dewisiadau anodd



*Golwg dros y flwyddyn ddiwethaf*
Helgard Krause, Prif Weithredwr



TROSOLWG

Mae llyfrau yn storfa bwerus o wybodaeth a hunaniaeth ddiwylliannol, a chredwn fod buddsoddi mewn cyhoeddi yn golygu llawer mwy na llyfrau yn unig – mae'n ymwneud â gwarchod ein treftadaeth, grymuso cymunedau, a chreu dyfodol cryfach.

Mae'r holl weithgareddau a gyflwynwyd gennym yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf hon yn adlewyrchu ein gweledigaeth ar gyfer Cymru fel cenedl o ddarllenwyr; cenedl wedi ei grymuso gan wybodaeth.

Fodd bynnag, mae toriad o 10.5% yn ein cyllideb ar ôl dros ddegawd o gyllido digyfnewid yn golygu ein bod wedi gorfod blaenoriaethu a gwneud dewisiadau anodd. Roedd ymgynghori â chyhoeddwyr a llyfrwerthwyr yn allweddol i gyflawni atebion ymarferol dros dro, ond mae'r heriau sy'n ein hwynebu ni fel elusen a sector o ficro-fentrau, yn parhau'n arswydus. Mae amodau'r farchnad yng Nghymru yn anodd – lleihad dramatig mewn gwerthiannau aml-lyfrau i sefydliadau fel ysgolion, llyfrgelloedd a'r sector blynyddoedd cynnar oherwydd cyllidebau cyhoeddus sy'n crebachu; pobl yn dewis gwario llai ar lyfrau a chylchgronau; a mwy a mwy o gystadleuaeth o gyfeiriad sector llyfrau'r DU yn gyffredinol, ynghyd â chostau cynhyrchu a dosbarthu tipyn uwch.

Ac eto, er gwaethaf hyn, fe wnaethom ni hefyd lwyddo i gyflawni blwyddyn olaf un o'r ymyriadau strategol mwyaf trawsnewidiol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, sef y Gronfa Cynulleidfaoedd Newydd, a ddechreuodd broses o newid systemig na fyddai wedi bod yn bosibl fel arall. Fel y dangosodd ein digwyddiad dathliad yn Wrecsam a'n hadroddiad effaith yn glir, fe wnaethom lwyddo i gysylltu â chymunedau mwy amrywiol, gan wneud gwahaniaeth go iawn a sbarduno newid ar lawr gwlad. Yn seiliedig ar ein tystiolaeth, ein gobaith yw sicrhau cyllid prosiect pellach yn y dyfodol.

Hefyd, cawsom gyfle i gynnig ehangu'n sylweddol ein gweithgareddau Hyrwyddo Darllen, trwy gyflwyno cynllun tair blynedd uchelgeisiol i Adran Addysg Llywodraeth Cymru. Cymeradwywyd y cynllun ac edrychwn ymlaen at weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru i dynnu sylw at bŵer trawsnewidiol darllen er pleser.

Hefyd y llynedd, daeth cylchgrawn llenyddol newydd i'r fei. Cafodd *Folding Rock* gryn dipyn o sylw a chanmoliaeth pan gafodd ei lansio ym mis Mawrth ar ôl sicrhau'r fasnachfraint yn llwyddiannus tan fis Mawrth 2028, ac edrychwn ymlaen at weld y fenter yn ffynnu ac yn darparu llwyfan pwysig i awduron yng Nghymru.

Ar ôl sicrhau cyllid ychwanegol, braint oedd gallu arddangos Cymru a'i doniau aruthrol yn Ffair Lyfrau Frankfurt yng nghwmni 17 o gyhoeddwyr o Fôn i Fynwy, ac i allu cefnogi Cyhoeddi Cymru / Publishing Wales i fod yn bresennol yn Ffair Lyfrau Ryngwladol Llundain ac yn Ffair Llyfrau Plant Bologna. Buom hefyd yn flaenllaw yn y gwaith o ddatblygu a chyflwyno cais i UNESCO i sicrhau statws o fri Dinas Llên ar gyfer Aberystwyth a Cheredigion; rydym yn disgwyl clywed y canlyniad yn ystod hydref 2025.

Wrth grynhoi tystiolaeth yn ystod blwyddyn brysur tu hwnt o lobïo am setliad gwell i'r sector, gallwn

ddangos bod ein sector wedi profi toriad mewn termau real o 40% dros y degawd diwethaf; sy'n dipyn llai na'r cyllid a gaiff yr Alban, Iwerddon na'r un o wledydd bach Ewrop. Mae cyfraniadau hael ymddiriedolwyr a gwirfoddolwyr yn bwysicach nag erioed yn y dyddiau cythryblus sydd ohoni, ac rwy'n ddyledus iawn iddyn nhw i gyd am y cyngor a'r gefnogaeth a gefais i a'r tîm dros y flwyddyn ddiwethaf. Hoffwn hefyd dalu teyrnged i'm holl gydweithwyr, a weithiodd yn ddiflino i sicrhau canlyniadau rhesymol dan amodau heriol dros ben. Diolch yn arbennig i'r tîm rheoli rhyfeddol hefyd – mae'n bleser arwain ein sefydliad gyda nhw, ac ni fyddai dim oll yn bosibl hebddyn nhw.

Mae'r sector cyhoeddi yn cyfrannu'n helaeth i nifer o feysydd polisi Llywodraeth Cymru, ond er mwyn cyflawni ein gweledigaeth o Gymru fel Cenedl o Ddarllenwyr, a gwella sgoriau PISA a chyfraddau llythrennedd yng Nghymru, mae angen sector cyhoeddi arnom sydd wedi ei ariannu'n ddigonol fel y gall barhau'n gadarn a ffynnu. Hoffem weld cyhoeddwyr yn cynhyrchu llyfrau o safon i ddarllenwyr o bob oed, cyfnod bywyd a diddordeb sy'n adlewyrchiad triw o'n realiti ni yma yng Nghymru. Ein prif ffocws fel Cyngor Llyfrau yn y flwyddyn sydd i ddod yw codi llais dros fuddsoddiad yn ein sector, sy'n gwneud cyfraniadau sylweddol i bron pob un o'r Nodau Llesiant ac sydd wedi dangos angerdd ac ymrwymiad i wasanaethu darllenwyr yng Nghymru dros gyfnod o flynyddoedd lawer.






CYHOEDDI

# Cylchgrawn *Folding Rock* yn derbyn £80,000 o gyllid blynyddol

Ym mis Medi cyhoeddwyd bod *Folding Rock*, menter newydd gan yr awdur, y golygydd a'r cynhyrchydd creadigol Kathryn Tann, a'r golygydd a'r dylunydd Robert Harries, wedi derbyn £80,000 o gyllid blynyddol i gyhoeddi cylchgrawn llenyddol newydd o Gymru.

Bydd *Folding Rock: New Writing from Wales and Beyond* yn darparu llwyfan i awduron newydd a sefydledig, gan ddathlu ysgrifennu Cymreig trwy gyfrwng y Saesneg. Mae ei nod o hyrwyddo a dathlu'r awduron newydd gorau a'r enwau mwy adnabyddus yng Nghymru ac o Gymru yn mynd at wraidd ein gwaith yma yn y Cyngor Llyfrau sef cryfhau'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru drwy roi cyfle i'r genhedlaeth nesaf o awduron i feithrin eu crefft.

Cyhoeddwyd y rhifyn cyntaf o *Folding Rock* ym mis Mawrth 2025, a bydd yn cael ei gyhoeddi dair gwaith y flwyddyn, gyda chynnwys digidol yn cyd-fynd â'r cylchgrawn print. Mae rhagor o fanylion ar gael yn foldingrock.com.

Bydd y cyllid hwn ar gael hyd at fis Mawrth 2028, yn dilyn hysbyseb ar gyfer tendr agored am gylchgrawn llenyddol Saesneg newydd ym mis Mawrth 2024.

Derbyniodd pedwar cyhoeddiad arall gyllid fel rhan o'r fasnachfraint ariannu Cyfnodolion Diwylliannol cyfrwng Saesneg ar gyfer yr un cyfnod: Nation.Cymru, *Poetry Wales*, *The Paper* a *Welsh Agenda*.





SECTOR

# Cymru ar lwyfan y byd

Cyhoeddwyr a phartneriaid o Gymru yn cynnig presenoldeb cyhoeddi Cymreig yn ffeiriau llyfrau Frankfurt, Bologna a Llundain.

## **Cymru** *yn Frankfurt*

— *17 o gyhoeddwyr a phartneriaid* o Gymru yn mynychu'r ffair
— *230,000 o ymwelwyr* wedi mynychu'r ffair dros gyfnod o 5 diwrnod
— *4,300 o arddangoswyr*
— *92 gwlad yn bresennol*

Roeddem yn falch o sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru drwy Cymru Greadigol eleni i arddangos y gorau o lyfrau a chynnwys o Gymru mewn ffeiriau llyfrau rhyngwladol yn Llundain, Bologna a Frankfurt. Cafodd cyhoeddwyr o Gymru y cyfle i gwrdd â chynrychiolwyr o ddiwydiannau creadigol eraill, megis y byd ffilm a'r byd gemau, yn ogystal â chyhoeddwyr eraill, a chafwyd cyfle i drafod cydweithio, hawliau a thrwyddedu, ac i feithrin cysylltiadau.

Fe wnaethom gydlynu presenoldeb Cymru yn Ffair Lyfrau Frankfurt ym mis Hydref, sef ffair gynnwys fwya'r byd. Aeth 17 o gyhoeddwyr a phartneriaid o Gymru i'r ffair dros bump diwrnod a ddenodd tua 230,000 o ymwelwyr, gyda 4,300 o arddangoswyr o 92 o wledydd.

Cafodd presenoldeb Cymru yn ffeiriau llyfrau Llundain a Bologna ei reoli gan Cyhoeddi Cymru / Publishing Wales.

# Cronfa Cynulleidfaoedd Newydd yn cyrraedd £1.5m



*R. Arwel Jones*
Pennaeth Datblygu Cyhoeddi



ARIANNU

## Yr heriau a wynebwyd yn y sector yn 2024 yn golygu bod cyllid Cynulleidfaoedd Newydd wedi bod o gymorth hanfodol i'r diwydiant cyhoeddi

Ceir rhagor o wybodaeth am brosiectau Cynulleidfaoedd Newydd ar wefan y Cyngor Llyfrau:

llyfrau.cymru

Hoffem ddiolch i Cymru Greadigol a Llywodraeth Cymru am eu cefnogaeth i'r gronfa drawsnewidiol hon, sydd â'r potensial i barhau i greu newid parhaol yn ein sector cyhoeddi er budd Cymru gyfan.

Yn 2024 gwelwyd trydedd flwyddyn o grantiau Cynulleidfaoedd Newydd, ac ym mis Mehefin cyhoeddwyd enwau'r rhai a fyddai'n rhannu £500,000 o gyllid ychwanegol i gefnogi 40 a mwy o brosiectau ledled Cymru. Eleni, gwahoddwyd ceisiadau o dan dair thema: rhaglenni hyrwyddo a marchnata llyfrau sy'n cyrraedd darllenwyr newydd yn y Gymraeg a'r Saesneg; darparu cyfleoedd i leisiau newydd mewn gwasanaethau newyddion a chylchgronau poblogaidd; a datblygu a chyhoeddi cynnwys newydd sy'n cynrychioli Cymru yn ei holl amrywiaeth.

Roedd yr heriau a wynebwyd gennym fel sector yn 2024 yn golygu bod cyllid Cynulleidfaoedd Newydd eleni, yn fwy nag erioed o'r blaen, wedi bod o gymorth hanfodol i'r diwydiant cyhoeddi ar adeg anodd dros ben. Roedd yn cefnogi mwy fyth o syniadau ffres a lleisiau newydd, ond roedd hefyd yn fodd i brosiectau a ddechreuodd fel cynlluniau peilot neu syniadau newydd o dan y cynllun dyfu a chyrraedd eu llawn botensial.

Pan sefydlwyd y gronfa gennym, roeddem yn chwilio am brosiectau a fyddai'n ysgogi newid parhaol yn ein sector: gan greu cyfleoedd, cynyddu cynrychiolaeth a chefnogi busnesau. Dair blynedd a £1.5miliwn yn ddiweddarach, gallwn edrych yn ôl ar 100 a mwy o brosiectau ledled Cymru. Ond mae'r straeon y tu ôl i'r ffigyrau hyn yn bwysicach fyth wrth i ni weld sut mae'r grantiau wedi creu swyddi, cefnogi cyflog teg, hwyluso cydweithio, mentora lleisiau newydd a helpu i gyhoeddi deunyddiau diwylliannol newydd.

Ym mis Chwefror 2025 cynhaliwyd digwyddiad dathlu yn Tŷ Pawb, Wrecsam, a gwahoddwyd derbynwyr grantiau'r gorffennol a'r presennol i drafod eu prosiectau, eu cyflawniadau a'u heriau wrth gyrraedd cynulleidfaoedd newydd yng Nghymru. Roedd hi'n braf croesawu Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, Rebecca Evans AS atom wrth inni fyfyrio ar effaith y buddsoddiad a chyfnewid syniadau ar gyfer y dyfodol.




# Sêr y Silffoedd

**Dros 5,000 o blant ledled Cymru yn derbyn cyfleoedd i gwrdd ag awdur.**

PARTNERIAETH

Diolch i gyllid gan Is-adran Diwylliant Llywodraeth Cymru, cafodd 5,170 o blant ledled Cymru gyfle i gwrdd ag awduron poblogaidd sy'n ysgrifennu llyfrau i blant mewn cyfres o weithdai arbennig a gynhaliwyd yn eu llyfrgelloedd lleol.

Yn ôl adroddiad ymchwil diweddar gan y National Literacy Trust: "Mae mwy o blant a phobl ifanc a oedd wedi bod yn rhan o sesiwn awdur yn dweud eu bod nhw'n mwynhau darllen yn eu hamser hamdden o'i gymharu â'u cyfoedion nad oeddynt wedi bod mewn sesiwn awdur (58.6% o'i gymharu â 39.3%)."

Sefydlwyd cynllun Sêr y Silffoedd fel partneriaeth i ddenu plant o'r ystafell ddosbarth ac i'w llyfrgell leol, gan weithio gydag awduron mewn gweithdai creadigol i ddathlu llyfrau ac ysbrydoli darllen.

Rhwng misoedd Ionawr a Mawrth 2025, cynhaliwyd gweithdai mewn 74 o lyfrgelloedd gyda dros 30 o awduron, gan gynnwys Siôn Tomos Owen, Mari Lövgreen, Robin Bennett a Claire Fayers.

## Lansio pecyn adnoddau newydd i gefnogi athrawon

NEWYDD

Ym mis Hydref lansiwyd set newydd o adnoddau ysgol, a gynhyrchwyd yn arbennig i gefnogi athrawon i ymgorffori darllen er pleser yn yr ystafell ddosbarth, ar draws pob grŵp oedran a chyfnod allweddol. Datblygwyd Pecyn Dathlu Darllen yn dilyn adborth gan athrawon ar sut y gallwn eu helpu i wneud darllen er pleser yn rhan o fywyd bob dydd yr ysgol: meithrin llythrennedd, sgiliau iaith ac empathi, a chyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru. Mae'r pecynnau yn cynnwys gweithgareddau a syniadau ar gyfer pob cam allweddol, yn ogystal â chamau cynnydd i helpu darllenwyr ifanc o bob oed i ddarganfod cariad at ddarllen.



# Lansio podlediad newydd sbon

HYRWYDDO

Dros gyfres o chwe phennod o'n podlediad Cymraeg newydd, *Sut i Ddarllen*, ymunodd amrywiaeth o westeion arbennig â'n Swyddog Hyrwyddo Darllen, Francesca Sciarrillo, i drin a thrafod darllen, ei ddylanwad a'i effaith ar ein bywydau bob dydd, yn ogystal â llyfrau o bob math. Ymhlith y gwesteion sy'n rhannu eu hatgofion a'u hargymhellion darllen mae Siôn Tomos Owen, Kayley Roberts a Manon Steffan Ros.

Dyma Francesca yn esbonio'r enw '*Sut i Ddarllen*': "Dwi'n gymaint o lyfrbryf fy hun a phan oedden ni'n cynllunio'r podlediad hwn, roedden ni eisiau cynnwys themâu penodol ym mhob pennod a oedd yn adlewyrchu'r berthynas wahanol sydd gennym ni i gyd â darllen. Fe fuon ni'n trafod sut i ailafael mewn darllen – os nad oeddech chi wedi mwynhau darllen pan oeddech chi'n iau, er enghraifft, ac eisiau rhoi cynnig arall arni – neu sut i ddod o hyd i'r llyfr iawn i chi, neu hyd yn oed sut i wneud amser i ddarllen yn ein bywydau prysur – roedd y gair 'sut' yn codi droeon yn ein syniadau! Felly, er ei fod yn deitl eitha chwareus, dwi wrth fy modd efo fo, achos unwaith y byddwch chi'n darganfod sut y gallwch chi wneud llyfrau a darllen yn rhan o'ch bywyd, gall newid pob dim i chi."

Mae *Sut i Ddarllen* ar gael ar yr holl blatfformau ar gyfer podlediadau. Gwesteion Francesca yng nghyfres un yw: Siôn Tomos Owen, Kayley Roberts, Manon Steffan Ros, Sara Yassine, Joe Healy, a Dr Eirini Sanoudaki. Bydd ail gyfres yn dilyn flwyddyn nesa.

Gwylio a gwrando ar bodlediad *Sut i Ddarllen*:

**Sut i Ddarllen**



PROSIECT

# Prosiect ‘Rhyngom’ yn golygu rhagor o lyfrau sy’n dathlu amrywiaeth i blant a phobl ifanc

Prosiect tair blynedd, gwerth £810,000 a ariennir gan Adran Addysg Llywodraeth Cymru ac Adnodd, yw Rhyngom. Ei nod yw cyhoeddi mwy o lyfrau darllen er pleser sy’n dathlu ac yn hyrwyddo amrywiaeth, i blant a phobl ifanc.

Mae’r cyllid wedi ein galluogi i gomisiynu 20 o lyfrau gwreiddiol newydd sbon yn y Gymraeg a’r Saesneg, yn ogystal ag addasu 28 o lyfrau Saesneg i’r Gymraeg, er mwyn creu llyfrau sy’n adlewyrchu mwy o’n straeon, ein pobl a’n cymunedau.

Rydym yn ddiolchgar iawn i’n partneriaid niferus sydd wedi cyfrannu eu profiad a’u harbenigedd i’r prosiect hwn, ac fe wnaethom ni ddathlu’r garreg filltir gyntaf eleni wrth i’r 20 llyfr gwreiddiol a gomisiynwyd yn y Gymraeg a Saesneg gael eu cyhoeddi.

Mae’r llyfrau newydd yn cynnwys gweithiau gan awduron newydd yn ogystal ag awduron sefydledig. Un o brif amcanion comisiynu llyfrau gwreiddiol Cymraeg a Saesneg fel rhan o’r cynllun oedd sicrhau cyfleoedd cyhoeddi i awduron a darlunwyr o ystod o gefndiroedd a chymunedau sydd wedi eu tangynrychioli, a chafodd awduron newydd gymorth a chyfle i weithio gyda mentor, neu i ysgrifennu ar y cyd gydag awdur mwy profiadol.

Ail gam y prosiect hwn yw cyhoeddi addasiadau Cymraeg o 28 o deitlau Saesneg sy’n hybu ac yn dathlu amrywiaeth – rhai ohonynt wedi ennill gwobrau fel The Diverse Book Award, ac sy’n cynnwys llyfrau gan Malorie Blackman a Benjamin Zephaniah. Rydym yn cynhyrchu adnoddau addysgol i gyd-fynd â’r 48 teitl a bydd pob ysgol wladol yng Nghymru yn derbyn cyflenwad am ddim o’r llyfrau a’r adnoddau addysgol i’w defnyddio yn yr ystafell ddosbarth erbyn hydref 2025. Mae pob llyfr a gyhoeddir fel rhan o’r cynllun wedi cael sêl bendith Llywodraeth Cymru.

Am ragor o wybodaeth ynglŷn â phrosiect Rhyngom, cysyllwch â’r Adran Llyfrai Plant ac Hyrwyddo Darllen:

plant@llyfrau.cymru






> *Dw i wedi dotio, ac yn diolch o waelod calon am yr anrhydedd.*
>
> *Mae’n golygu’r byd i mi.*
>
> **Bethan Gwanas**




GWOBRAU

# Anrhydeddu Bethan Gwanas â Gwobr Mary Vaughan Jones

Ym mis Tachwedd dyfarnwyd Gwobr Mary Vaughan Jones 2024 i Bethan Gwanas, i gydnabod ei chyfraniad eithriadol i lenyddiaeth plant. Sefydlwyd y wobr hon, a gyflwynir bob tair blynedd, yn 1985 i goffáu cyfraniad sylweddol ac unigryw Mary Vaughan Jones i fyd llên plant a dyma’r anrhydedd fwyaf ym myd llyfrau plant yng Nghymru. Cynhaliwyd dathliad arbennig yng Nglan-llyn, Llanuwchllyn ym mis Tachwedd i gyflwyno’r wobr i Bethan yng nghwmni teulu a ffrindiau o’r byd cyhoeddi.

**Cyn-enillwyr diweddar y wobr:**
2021 – Menna Lloyd Williams
2018 – Gareth F. Williams
2015 – Siân Lewis
2012 – Jac Jones
2009 – Angharad Tomos

NEWYDD

# Lansio gwobrau i ddathlu cloriau o Gymru

Gwobrau Clawr y Flwyddyn am Lyfrau i Blant yn gynllun peilot i roi sylw ar dalentau darlunio a dylunio yng Nghymru.

Eleni fe wnaethom lansio ein Gwobrau Clawr y Flwyddyn Cymru am Lyfrau i Blant a Phobl Ifanc, gyda chymorth ein Panel Pobl Ifanc. Sefydlwyd y gwobrau i ddathlu a chydnabod cyfraniad darlunwyr a dylunwyr i'r her o ddod â straeon yn fyw, a chreu llyfrau trawiadol, deniadol sy'n apelio at ddarllenwyr ifanc.

Mae dau gategori – Clawr Llyfr Cymraeg a Chlawr Llyfr Saesneg. Dewiswyd yr wyth llyfr ar y rhestr fer gan aelodau ein Panel Pobl Ifanc a daeth yr enillwyr i'r brig trwy bleidlais gyhoeddus ar-lein.

> *Rwy'n falch iawn o ennill y wobr newydd wych hon. Rwyf wrth fy modd bod y wobr hon wedi ei sefydlu i ddathlu dyluniadau cloriau.*
>
> Jane Matthews
> *Ennillydd categori Saesneg*

> *Am anrhydedd i glywed fod y llyfr bach gaeafol hwn wedi cael ei ddewis i ennill y wobr!*
>
> Lily Mŷrennyn
> *Ennillydd categori Cymraeg*

## Rhestr Fer Categori Cymraeg

**Mynd i Weld Nain** *Y Lolfa*
Darlunio: Lily Mŷrennyn
Dylunio: Richard Pritchard
Awdur: Delyth Jenkins

**Ac Rwy'n Clywed Dreigiau / And I Hear Dragons** *Firefly*
Darlunio: Eric Heyman
Dylunio: Becka Moor
Golygydd: Hanan Issa

**Diwrnod Prysur**
*Gwasg Carreg Gwalch*
Darlunio a dylunio: Huw Aaron
Awdur: Huw Aaron

**Mwy o Straeon o'r Mabinogi** *Rily*
Darlunio: Valériane Leblond
Dylunio: Gwasg Rily
Awdur: Siân Lewis

## Rhestr Fer Categori Saesneg


**The Song that Sings Us**
*Firefly*
Darlunio: Jane Matthews
Dylunio: Becka Moor
Awdur: Nicola Davies

**Ceri a Deri: 1,2,3** *Graffeg*
Darlunio: Max Low
Dylunio: Joana Rodrigues, Graffeg
Awdur: Max Low


**Lilly & Myles: The Torch**
*Graffeg*
Darlunio: Hannah Rounding
Dylunio: Joana Rodrigues, Graffeg
Awdur: Jon Roberts

**Tapper Watson and the Quest for the Nemo Machine** *Firefly*
Darlunio: Becka Moor
Awdur: Claire Fayers

ENILLYDD




ENILLYDD




GWOBR · AWARD
CLAWR LLYFR PLANT Y FLWYDDYN
CHILDREN'S BOOK COVER OF THE YEAR

# Ein blwyddyn mewn ffigyrau

Y rhifau tu ôl i'n straeon

**549,539**
o lyfrau wedi eu dosbarthu gan y Ganolfan Ddosbarthu
DIWYDIANT

**62**
o wirfoddolwyr yn cyfrannu at ein Bwrdd, paneli ac is-bwyllgorau
GWIRFODDOLI

**24,966kWh**
o drydan wedi'i gynhyrchu gan baneli solar
CYNALIADWYEDD

**536**
o siopau yng Nghymru wedi eu gwasanaethu
DIWYDIANT



**5,170**
o blant wedi cymryd rhan yng ngweithdai awduron Sêr y Silffoedd
HYRWYDDO DARLLEN

**90**
o lyfrau Saesneg wedi eu cyhoeddi gyda chymorth grantiau
CYHOEDDI

**145**
o lyfrau Cymraeg wedi eu cyhoeddi gyda chymorth grantiau
CYHOEDDI

**£500,000**
wedi ei ddosbarthu drwy'r Gronfa Cynulleidfaoedd Newydd 3
ARIANNU

**27,207**
o blant 4–11 oed wedi cymryd rhan yn Sialens Ddarllen yr Haf Cymru
HYRWYDDO DARLLEN

**16**
cylchgrawn Cymraeg wedi eu cyhoeddi gyda chymorth grantiau
CYHOEDDI

**17½**
swydd yn cael eu cynnal trwy gymorth grantiau
CYNNAL SWYDDI

**5**
cylchgrawn Saesneg wedi eu cyhoeddi gyda chymorth grantiau
CYHOEDDI

## Cysylltu gyda ni

Cyngor Llyfrau Cymru
Castell Brychan
Aberystwyth
SY23 2JB

01970 624 151
post@llyfrau.cymru
llyfrau.cymru

*Rhif Elusen Gofrestredig 1192269*

*Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg*
*An English-language version of this document is also available*

Cymru Greadigol
Creative Wales